**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am gynnal yr ymchwiliad hwn i'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cyflawni eu potensial yn llawn mewn addysg beth bynnag eu cefndir neu amgylchiadau personol. Ein gweledigaeth yw bod ein holl blant a phobl ifanc yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn amgylchedd dysgu cynhwysol sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Rwy'n gweld diwygio addysg fel ein nod cenedlaethol dros dymor y Llywodraeth hon drwy ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru a threfniadau asesu newydd. Drwy gydweithio, rhaid inni geisio sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf. Credaf mewn system addysg gynhwysol, gyda llesiant y dysgwr yn ganolog iddi: proffesiwn dysgu unedig sy'n ymrwymedig i ragoriaeth a'r holl wasanaethau addysg yn cydweithio i sicrhau tegwch a chyfleoedd cyfartal i'n holl ddysgwyr.

Mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i addysg yn glir yn ein Rhaglen Lywodraethu newydd. Rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau ar gyfer addysg, gan gynnwys gwella safon addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth; cefnogi'r gweithlu; buddsoddi yn yr amgylchiadau ar gyfer gwella drwy system hunanwella; cefnogi'r Gymraeg; a pharhau â'n hymdrechion i leihau anghydraddoldebau a dileu rhwystrau i addysg.

Rydym yn adolygu ein strategaeth gyffredinol gyfredol ar gyfer addysg dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed, Cymwys am Oes, a'r hyn sy'n ategu fy null gweithredu ar addysg yw fy nghred na ddylai amgylchiadau personol rhywun effeithio ar ei allu i gael budd o addysg, ac ymdrech i leihau anghydraddoldebau a dileu rhwystrau i addysg.

Er enghraifft, byddaf yn cyhoeddi cyn hir gynigion i leihau maint dosbarthiadau babanod sy'n gysylltiedig â lefelau uchel o amddifadedd, anghenion dysgu ychwanegol neu lle nad y Gymraeg na'r Saesneg yw'r iaith gyntaf. Caiff hyn ei gysylltu'n glir â gwell deilliannau i ddysgwyr yn yr ysgolion hynny.

Wrth geisio deall yr heriau y mae dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig, yn eu hwynebu o ran cyflawni eu potensial addysgol, credaf fod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar faes pwysig ac rwy'n falch bod yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal.

Rwyf wedi rhoi ymateb manwl i gais cychwynnol y Pwyllgor am wybodaeth, sydd wedi'i atodi i'r papur hwn. Yn y papur tystiolaeth hwn, hoffwn gyfeirio'n fyr at gwpl o themâu o fy ymateb blaenorol a rhoi rhagor o gyd-destun.

**Polisïau addysg Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig, a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.**

**Dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gypsy and Traveller Education: Engaging Families – a Research Report*[1]. Diben y gwaith ymchwil oedd nodi beth sy'n gweithio o ran sicrhau bod teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ymgysylltu ag addysg gan ganolbwyntio'n benodol ar gyrhaeddiad, presenoldeb a chadw disgyblion. Yr amcan oedd rhoi darlun cynhwysfawr yn seiliedig ar dystiolaeth o'r arferion da drwy dynnu ar brofiadau ymarferwyr y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr. Roedd hyn yn cynnwys creu darlun o'r ddarpariaeth gan Awdurdodau Lleol ar gyfer y dysgwyr hynny ledled Cymru. Gwyddom fod cymhlethdodau ynghlwm wrth ymgysylltu â theuluoedd, a bwriadwyd i'r gwaith ymchwil roi dealltwriaeth fanylach inni er mwyn darparu gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau, ymarferwyr a llunwyr polisi allweddol eraill.

Aeth y gwaith ymchwil i'r afael â natur darpariaeth addysg Awdurdodau Lleol i Sipsiwn a Theithwyr, nododd yr arferion allweddol ar gyfer hwyluso ymgysylltiad a sut yr oedd gwasanaethau'n gweithio i sicrhau bod teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ymgysylltu ag addysg.

Nododd y data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, er bod cynnydd yn nifer y plant sy'n Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion ledled Cymru, bod cyrhaeddiad a phresenoldeb y disgyblion hyn yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod dysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu rhwystrau unigryw i ymgysylltu drwy gydol eu haddysg. Nhw sydd â'r lefelau uchaf o absenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac, o'r herwydd, nhw hefyd sydd â rhai o'r lefelau isaf o gyrhaeddiad addysgol ymysg pob grŵp dysgu. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y grwpiau hyn yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad yn yr ysgol a chefnogi pontio i'r ysgol uwchradd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Teithio gyda'n gilydd: Adnoddau i hyrwyddo'r broses o integreiddio diwylliant Sipsiwn a Theithwyr i'r cwricwlwm cenedlaethol*[2] i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Sipsiwn a Theithwyr yn y cwricwlwm cenedlaethol. Mae'n darparu canllawiau manwl ar gyfer ysgolion drwy ddwyn ynghyd adnoddau a gyhoeddwyd gan y Gwasanaethau Addysg i Deithwyr ledled Cymru a gwefannau arbenigol ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Datblygwyd yr adnodd i gefnogi cyrhaeddiad, i ddarparu cwricwlwm sy'n cadarnhau eu diwylliant, i annog pontio a lleihau ymyleiddio dysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth i ddatblygu *Plant y Sipsiwn, y Roma a Theithwyr yn Ysgolion Cymru: Hyrwyddo Cydraddoldeb a Mynd i'r Afael â Hiliaeth*[3]. Pecyn cymorth dwyieithog yw hwn sy'n darparu gwybodaeth a gweithgareddau i helpu dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ymgartrefu yn yr ysgol. Fe'i datblygwyd drwy ymgynghori ag aelodau'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac mae ar gael drwy Hwb. Fe'i lluniwyd i

---

[1] Gypsy and Traveller Education – Engaging Families – A research report: http://gov.wales/statistics-and-research/gypsy-traveller-education/?lang=en

[2] Teithio gyda'n Gilydd: http://learning.gov.wales/resources/browse-all/travelling-together/?skip=1&lang=cy

[3] Plant y Sipsiwn, y Roma a Theithwyr yn Ysgolion Cymru: http://www.srtrc.org/uploaded/SRTRC%20WELSH%20GOVT%20DOC%20translated%20REV5.pdf

helpu i gael gwared ar rwystrau, hybu dealltwriaeth, a chreu profiad croesawgar a chynhwysol mewn ysgolion sy'n cyd-fynd â *Teithio gyda'n Gilydd.*

### Dysgwyr o leiafrifoedd ethnig

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r datganiad polisi *Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig mewn addysg yng Nghymru*[4] sy'n nodi ein hymrwymiad i alluogi pob plentyn i gyflawni ei botensial yn llawn, gan gynnwys plant o leiafrifoedd ethnig. Rhaid cydnabod bod y cyllid, bryd hynny, wedi'i ddarparu drwy ddau grant ar wahân. Roedd y datganiad polisi'n ceisio gosod cyrhaeddiad plant o leiafrifoedd ethnig o fewn y fframwaith strategol ehangach sy'n rheoli addysg yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyheadau mawr ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru. Mae ein rhaglen diwygio addysg yn canolbwyntio ar wella ysgolion fel y brif ffordd o gyflawni ein hamcanion i sicrhau bod pob dysgwr yn llwyddo. Mae gan ein ffocws strategol a geir yn Cymwys am Oes bedwar amcan strategol:

- Gweithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gref wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio;
- Cwricwlwm sy'n ddeniadol ac yn atyniadol i blant a phobl ifanc ac sy'n datblygu eu gallu i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau yn annibynnol;
- Pobl ifanc yn ennill cymwysterau sy'n cael eu parchu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol ac sy'n gweithredu fel pasbort credadwy i'w haddysg a'u cyflogaeth yn y dyfodol;
- Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio mewn system hunan-wella gan helpu a herio ei gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol.

Bydd y fersiwn nesaf o Cymwys am Oes yn cynnwys amcan penodol ar gyfer llesiant a chynhwysiant o fewn y system addysg a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chefnogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial yn unol â'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu.

O ran dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, nid yw hwn yn un grŵp homogenaidd a gall anghenion y dysgwyr hyn amrywio'n sylweddol. Er bod uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn aml yn cael eu cyfleu yn nhermau 'pob dysgwr' yng Nghymru, ein huchelgeisiau yw cael system sy'n cydnabod anghenion pob dysgwr fel unigolyn beth bynnag ei gefndir neu ei nodweddion. Un o'r heriau a wynebwn fydd sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn creu amgylchiadau lle bydd gan ein lleoliadau addysg yr arbenigedd i ddiwallu anghenion unigol pob dysgwr.

Un o'r prif gamau a nodwyd yn y datganiad polisi oedd yr angen i feithrin gallu i ddiwallu'r galw cynyddol. I gefnogi hynny, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Uned Pobl a Gwaith i nodi'r strategaethau a dulliau llwyddiannus ar gyfer cynyddu sgiliau athrawon dosbarth wrth ddarparu addysg i blant y mae Saesneg neu Gymraeg yn Iaith Ychwanegol iddynt, ac i adrodd arnynt.

Cyhoeddwyd adroddiad ar y Prosiect i Nodi Dulliau Meithrin Gallu i Gefnogi Cyflawni Saesneg fel Iaith Ychwanegol ym mis Mawrth 2015.

---

[4] Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140327-minority-ethnic-achievement-in-wales-policy-statement-cy.pdf

Rhoddodd yr adroddiad enghreifftiau o arferion da o ran cefnogi dysgwyr y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt i ymarferwyr a darparwyr y Gwasanaeth Cyflawni i Leiafrifoedd Ethnig. Rhoddodd dystiolaeth ddefnyddiol ynghylch y farn sefydledig bod meithrin gallu yn ddibynnol ar ddull ysgol gyfan holistaidd, a bod gorddibyniaeth ar Wasanaethau Cyflawni i Leiafrifoedd Ethnig awdurdodau lleol yn anghynaliadwy. Awgrymodd hefyd fod cyfle allweddol i wasanaethau gydweithio'n agosach i rannu adnoddau ac arferion da. Mae tystiolaeth bod hyn yn dechrau digwydd.

**System hunanwella**

Un o gonglfeini ein dull gweithredu cyffredinol yw'r system hunanwella; rydym yn ceisio datblygu cyfrifoldeb ar y cyd am y system addysg ehangach drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn y tymor hwy. Bydd angen llinellau cyfrifoldeb clir i wneud hynny a bydd yn rhaid i'n perthynas â'r sector geisio bod yn onest a heriol. Yn y pen draw, hoffwn weld ein holl leoliadau addysg yn gallu cydweithio i ddiwallu'r mwyafrif helaeth o anghenion ein holl ddysgwyr, gyda chyfran fwy o'r adnoddau ar gael iddynt a llai o angen i ddibynnu ar wasanaethau cymorth canolog.

O fewn y cyd-destun hwnnw, mae rôl glir o hyd ar gyfer gwasanaethau cymorth addysgol drwy gydweithio i rannu arferion da a chefnogi ysgolion i wella'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr unigol. Mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrhaeddiad addysgol dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, yn parhau, pa bynnag ddulliau a ddefnyddiwn i ddarparu cymorth ychwanegol iddynt.

**Perfformiad**

Fel yr amlinellais yn fy llythyr i'r Pwyllgor, mae'n rhy fuan i asesu effaith y trefniadau grant newydd ar ganlyniadau addysgol dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig gan mai dim ond ers mis Ebrill 2015 y bu'r grant ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data perfformiad yn ôl nodweddion dysgwyr yn flynyddol. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Ionawr 2017 ar gyfer y cyfnod 2016. Mae maint rhai o'r grwpiau'n fach iawn, weithiau dim ond ychydig mwy na ffigurau sengl, ac felly mae amrywiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Cyhoeddir y data ar sail gyfanredol i sicrhau bod nifer y dysgwyr o bob cefndir ethnig yn fwy er mwyn llunio casgliadau mwy cadarn am gyrhaeddiad dysgwyr ym mhob grŵp.

Yn ôl y data cyfanredol ar gyfer 2013-15, mae cyrhaeddiad dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn parhau i fod yn llawer is na chyrhaeddiad eu cyfoedion, gyda dim ond 15.5% o ddysgwyr sy'n Sipsiwn a Sipsiwn Roma yn cyrraedd Lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4, yn erbyn cyfartaledd drwy Gymru gyfan o 56%. Mae perfformiad dysgwyr Du neu Ddu Brydeinig wedi gwella o 41.9% i 47.1% gan gyflawni trothwy cymwysedig Lefel 2 ac, o fewn hynny, mae perfformiad dysgwyr Caribïaidd wedi gostwng o 33.8% i 31.8%, tra bod perfformiad dysgwyr Affricanaidd wedi cynyddu o 42.5% i 49.0%.

Yn y dangosydd pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2, gellir gweld gwelliannau ar gyfer dysgwyr sy'n Deithwyr, gan gyflawni 51.9% yn erbyn 46.8% ar gyfer data cyfanredol y flwyddyn flaenorol, ac ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn a Sipsiwn Roma, a gyflawnodd 60.3% yn erbyn 47.9% yn y data cyfanredol ar gyfer y flwyddyn

flaenorol. Fodd bynnag, mae'r ddau grŵp o ddysgwyr yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl ddysgwyr, sy'n 86.2%. Mae perfformiad dysgwyr Du neu Ddu Brydeinig wedi cynyddu o 78.3% i 80.4% yn gyffredinol yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae anghenion dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn amrywiol. Ar gyfer rhai grwpiau, gan gynnwys dysgwyr Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig (79.8%), Pacistanaidd (56.2%) ac Indiaidd (69.3%), mae'r perfformiad ar yr un lefel neu'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl ddysgwyr ar drothwy cymwysedig Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae risg amlwg o drin y dysgwyr a gefnogwyd gan y Grant Cyrhaeddiad ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig blaenorol a'r grant penodol ar gyfer addysgu plant sy'n Sipsiwn a Theithwyr fel grŵp 'sengl' o ddysgwyr, pan fo anghenion unigolion a grwpiau gwahanol o ddysgwyr sy'n cael eu galw'n lleiafrifoedd ethnig, neu sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mewn gwirionedd, yn amrywio'n sylweddol.

**Dull gweithredu rhanbarthol**

Yn sgil yr amrywiaeth o ran anghenion dysgwyr, yr arbenigedd cyfyngedig ac, o bryd i'w gilydd, arbenigol sydd ei angen, a'r angen i rannu adnoddau mewn modd hyblyg, mae'n gynyddol bwysig bod ein gwasanaethau canolog yn cydweithio ac yn rhannu arferion da. Gall rhoi dull gweithredu rhanbarthol ar waith, fel y gwnaed ar gyfer gwella ysgolion, gynnig hyblygrwydd ychwanegol i gyfeirio'r cymorth i'r mannau lle mae ei angen. Wrth inni symud yn ein Blaenau mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio'n well i gydrannu arbenigedd ac arferion rhagorol. Mae hynny'n rhan allweddol o rôl y consortia rhanbarthol o ran darparu eu gwasanaethau gwella ysgolion. Drwy gynnwys y cymorth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn y trefniadau grant newydd, rydym yn ceisio prif ffrydio'r gwasanaeth yng nghyd-destun gwella ysgolion a'r strwythurau cymorth ehangach sydd ar gael.

Cyn cyflwyno'r Grant Gwella Addysg, darparwyd y cymorth drwy'r Grant Cyflawni i Leiafrifoedd Ethnig a'r Grant Penodol ar gyfer addysg plant sy'n Sipsiwn a Theithwyr i Awdurdodau Lleol. Roedd gan bob un ohonynt Wasanaethau Cyflawni i Leiafrifoedd Ethnig unigol neu ar y cyd ac roedd 19 ohonynt wedi sefydlu Gwasanaethau Addysg i Deithwyr. Ers cyflwyno'r Grant Gwella Addysg, er bod y lefel gyffredinol o gyllid a ddarparwyd drwy'r grant yn is, mae'r hyblygrwydd o fewn y grant, gan gynnwys drwy'r elfennau wedi'u dirprwyo neu heb eu dirprwyo, wedi parhau i gael ei ddefnyddio i gefnogi'r Gwasanaethau Cyflawni i Leiafrifoedd Ethnig a'r Gwasanaethau Addysg i Deithwyr ac i ddarparu cymorth i ddysgwyr. Rydym yn cydnabod y gwaith rhagorol a wneir ledled Cymru i gefnogi pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a phlant sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae llywodraeth leol wedi cadarnhau bod addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ac er nad yw'r cyllid grant ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi'i glustnodi, nodwyd yn glir bod anghenion dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn flaenoriaeth.

Mae gan y Grant Gwella Addysg bedwar amcan cyffredin o ran sicrhau canlyniadau, sy'n cynnwys gwella canlyniadau addysgol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, yn y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4 ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad. Mae hyn yn cynnwys y grwpiau o ddysgwyr hynny y mae'n hysbys bod risg iddynt dangyflawni,

er enghraifft, ond heb ei gyfyngu i, faterion sy'n ymwneud â rhyw, neu'r rheini sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, Saesneg a/neu Gymraeg fel Iaith Ychwanegol, neu o grwpiau lleiafrifol ethnig penodol fel dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r consortia rhanbarthol yn ddiweddar a bydd arolygiad dilynol yn cael ei gynnal yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf. Mae Estyn wedi nodi'r meysydd i'w gwella, gan gynnwys dangos arbedion effeithlonrwydd ac effaith camau a gymerir yn yr haen ganol. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £100 miliwn yn ychwanegol mewn safonau mewn ysgolion yn ystod y tymor Cynulliad hwn ac rwy'n bwriadu buddsoddi elfen o'r cyllid hwnnw i gefnogi gwaith gwerthuso a chynllunio gwell er mwyn sicrhau effeithiolrwydd yn yr haen ganol.

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P/KW/7427-16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

11 Tachwedd 2016

Anwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref yn gofyn am wybodaeth i helpu ymchwiliad y Pwyllgor i'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion, ac yn benodol eich cais am wybodaeth am sut mae'r grant o gymorth i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig. Edrychaf ymlaen at ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 12 Ionawr 2017 i drafod hyn yn fanylach.

Rwyf wedi rhoi gwybodaeth sy'n ateb eich cwestiynau penodol a'ch ceisiadau am wybodaeth, ond efallai hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn rhoi rhywfaint o gefndir a chyd-destun sefydlu'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion a'n polisi ar gyrhaeddiad dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Y cefndir a'r cyd-destun
Cyflwynwyd y Grant Gwella Addysg ym mis Ebrill 2015. Roedd yn disodli 11[1] o grantiau unigol gydag un trefniant sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Mae'r Grant Gwella Addysg yn cyd-fynd â Cymwys am Oes, sef ein strategaeth ar gyfer addysg dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru. Amcanion cyffredinol y Grant oedd helpu i wella ansawdd addysgu a dysgu; cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal dysgu a gwella cynhwysiant; gwella'r arweinyddiaeth mewn lleoliadau addysgol; a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr ac ennyn diddordeb dysgwyr fwyfwy mewn dysgu.

[1] Yr 11 grant ad-drefnwyd i greu'r Grant Gwella Addysg oedd: y Grant Llwybrau Dysgu 14-19; y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion; Grant Refeniw'r Cyfnod Sylfaen; Grant y Gymraeg mewn Addysg; y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig; y Grant Penodol ar gyfer Addysg Plant Sipsiwn a Theithwyr; y Grant Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol; y Grant Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch; y Grant Cynefino; y Grant Cymorth Darllen a Rhifedd; y Grant cyllid ychwanegol i ysgolion Band 4 a 5.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd nifer o resymau dros ad-drefnu a symleiddio ein trefniadau i roi cyllid grant, a hynny yn y maes addysg ac yn ehangach o fewn Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu anghenion ein partneriaid. Yn ei adroddiad ar ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, galwodd Robert Hill am fwy o hyblygrwydd ariannol ac am leihau'r baich gweinyddol sydd ar ysgolion. Pwysleisiodd adroddiad Comisiwn Williams yr angen i leddfu'r pwysau ariannol ar lywodraeth leol drwy beidio â neilltuo cyllid grant penodol a thrwy ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na'r gweithgarwch ei hun. Cyn hynny, roedd adroddiad PriceWaterhouseCoopers a gwaith dilynol yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen wedi dangos bod angen cymryd camau i leihau'r costau gweinyddol a'r beichiau biwrocrataidd wrth ariannu ysgolion a llywodraeth leol.

Roedd y rhesymau ariannol dros gyflwyno newidiadau yn sylweddol a hynny mewn cyfnod pan oedd pwysau mawr a chynyddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cyllidebau addysg, wrth i'r rheini leihau mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn. Ar yr un pryd, roedd angen rhoi sylw i oblygiadau adroddiad Nuffield ar addysg yng Nghymru; amddiffyn ysgolion rhag y newidiadau gwaethaf; ac, yn 2014-15, rheoli effaith gostyngiadau yn y gyllideb addysg yn ystod y flwyddyn.

Gan weithio gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio lleihau'r pwysau hwn ar ysgolion a gwasanaethau ysgolion, ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ad-drefnu nifer o grantiau unigol, a dyna a arweiniodd at sefydlu'r Grant Gwella Addysg. Roedd llywodraeth leol wedi ymrwymo i drosglwyddo mwy o'u cyllid yn uniongyrchol i ysgolion, ac ar ôl cyflwyno'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, roedd y Grant Gwella Addysg yn fodd o helpu gwasanaethau gwella ysgolion i weithio'n rhanbarthol ar draws Cymru.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi, Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig mewn Addysg yng Nghymru[2] . Roedd y datganiad hwn yn dangos sut y byddai'r Llywodraeth yn ceisio galluogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial, ynghyd â sut yr oedd cyflawniad lleiafrifoedd ethnig yn perthyn i'r fframwaith strategol ehangach ar gyfer addysg yng Nghymru.

Ar y pryd, roedd un o bob deg dysgwr yng Nghymru o gefndir lleiafrif ethnig, a thrwy hynny'n cyfrannu at yr amrywiaeth ddiwylliannol, gymdeithasol ac ieithyddol gyfoethog sydd gennym i'w gwerthfawrogi. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatgloi potensial pob plentyn. Mae hyn yn dal yn ganolog i bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg heddiw. Adlewyrchir hyn, er enghraifft, yn fy nghyhoeddiad diweddar y byddaf yn rhoi £4.5 miliwn yn ychwanegol yn 2017-18 fel rhan o'r cyllid sylweddol sydd ar gael drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod wedi ymrwymo i gynorthwyo dysgwyr o bob cefndir i lwyddo. Fel y nodwyd yn y datganiad polisi yn 2014, mae'r weledigaeth hon yr un mor wir ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, sydd o bosibl angen cymorth gyda'r Gymraeg neu'r Saesneg, neu ddysgwyr lle mae risg iddynt dangyflawni am resymau eraill. Cyn cyflwyno'r Grant Gwella Addysg, er bod cymorth penodol ar gael bryd hynny i'n dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, roedd hyn yng nghyd-destun buddsoddiad mwy o lawer mewn gwasanaethau ysgolion yn ehangach.

[2]Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig mewn Addysg yng Nghymru: 132/2014, Mawrth 2014: http://learning.gov.wales/resources/browse-all/minority-ethnic-achievement-in-education-in-wales/?lang=cy

Dyna hefyd y sefyllfa nawr, a rhaid i'r buddsoddiad hwn gyfrannu at ein gweledigaeth ar gyfer pob dysgwr, sef bod ganddynt yr arfau a'r cyfleoedd y mae eu hangen arnynt i gael cwricwlwm llawn, i elwa ar hwnnw, ac i gyflawni eu potensial. Nid ydym wedi llwyddo eto ac mae llawer o waith o hyd i'w wneud. Dros dymor y Llywodraeth hon, fy mlaenoriaeth yw gweithio i sicrhau bod gan ein holl blant a phobl ifanc yr un cyfle i gyrraedd y safonau uchaf.

Rwy'n ymwybodol iawn na fydd hyn yn hawdd. Yn y datganiad polisi yn 2014, cydnabu Llywodraeth Cymru rai o'r heriau wrth i adnoddau fynd yn brinnach ac wrth i'r galw am y gwasanaethau a fodolai eisoes gynyddu. Yr her oedd sut i barhau i gryfhau capasiti yn ein gwasanaethau a'n hystafelloedd dosbarth er mwyn cefnogi dysgwyr o leiafrifoedd ethnig wrth iddynt geisio gwireddu eu huchelgeisiau.

Penderfyniad polisi i gyfuno grantiau i'r Grant Gwella Addysg
1. Manylion am unrhyw asesiad o effaith, yn enwedig mewn perthynas â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig a wneir gan Lywodraeth Cymru cyn y penderfyniad i gyfuno'r grantiau i'r Grant Gwella Addysg.

Ym mis Awst 2014, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Penodol ar gyfer Addysg Plant Sipsiwn a Theithwyr, a chafodd y rhain eu diweddaru ym mis Ebrill 2015. Fe'u cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru[3] ynghyd ag asesiad effaith pellach a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2014, ac a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2015, mewn perthynas â'r arbedion a oedd i'w gwneud yn y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn 2014-15.

Ynghyd â'r asesiadau effaith penodol hyn, fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a rhoi cyngor i Weinidogion ynghylch sut i reoli unrhyw bwysau ar y gyllideb, ystyrir sut y bydd lefelau cyllido yn effeithio ar raglenni a grantiau. Penderfyniadau a wnaed yn nhymor y Llywodraeth ddiwethaf oedd y rhai i ad-drefnu'r grantiau a sefydlu'r Grant Gwella Addysg.

2. Manylion am unrhyw opsiynau eraill a ystyriwyd cyn y penderfyniad i gyfuno'r grantiau, gan gynnwys p'un a allai unrhyw un o'r grantiau fod wedi parhau fel grantiau ar wahân ai peidio.

Adolygwyd y gwariant fesul llinell yn ystod proses y Gyllideb. O ganlyniad, canfuwyd nifer o grantiau y gallai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd ystyried eu cynnwys yn y trefniadau newydd a fyddai'n arwain at sefydlu'r Grant Gwella Addysg. Deallaf fod y grantiau hynny wedi'u dewis yn sgil y ffaith eu bod yn rhannu'r un amcanion a chanlyniadau, neu gan fod perthynas rhwng y rheini. Byddai dau grant penodol yn parhau i gael eu rhoi ar wahân, sef grant Her Ysgolion Cymru a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Rhaglen ddwy flynedd arfaethedig oedd rhaglen Her Ysgolion Cymru, a oedd i ddod i ben yn 2015-16. Sefydlwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion yn sgil y trefniant rhwng pleidiau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llafur Cymru, ac oherwydd hynny, penderfynwyd mai priodol oedd cadw trefniadau ar wahân ar ei gyfer.

[3] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:
http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/education-improvement-grant-equality-impact-assessments/?skip=1&lang=cy

O ran y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Penodol ar gyfer Addysg Plant Sipsiwn a Theithwyr, erbyn 2014-15 roedd y rheini'n sefydlog ac wedi stopio cynyddu. Galwodd datganiad polisi Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014 am ddulliau mwy arloesol o weithio, am weithio mewn partneriaeth, am gysylltiadau agosach gyda chynlluniau a gwaith y gwasanaethau gwella ysgolion er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn parhau, ac am geisio sicrhau gwerth ychwanegol o fuddsoddiad y cyllid grant. Cyn sefydlu'r Grant Gwella Addysg, ystyriwyd cyfuno'r ddau grant ym mlwyddyn ariannol 2015-16.

3. Yn ystod rownd cyllideb ddrafft 2015-16, dywedodd y Gweinidog y dylai'r system newydd arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr.  Dylech ddarparu unrhyw dystiolaeth gynnar o hyn, yn arbennig mewn perthynas â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig.

Nod y trefniadau newydd oedd symleiddio systemau, lleihau biwrocratiaeth a chanolbwyntio mwy ar sicrhau deilliannau i ddysgwyr. Roedd yn fwriad hefyd gwario llai o adnoddau ar weinyddu a rheoli'r grantiau, a chanolbwyntio llai ar gofnodi'r mewnbwn a'r allbwn a'r lefel genedlaethol.

Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y trefniadau grant newydd ar ddeilliannau addysgol dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan mai dim ond ers mis Ebrill 2015 y mae'r grant wedi bod ar gael. Bydd angen rhoi amser i'r trefniadau fagu gwreiddiau ac rydym yn hyderus eu bod yn dechrau gwneud hynny. Dylai'r hyblygrwydd sy'n dod law yn llaw â'r Grant Gwella Addysg alluogi awdurdodau lleol, y consortia ac ysgolion i ddefnyddio'r cyllid i dargedu'r meysydd lle mae'r angen mwyaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data yn genedlaethol ar berfformiad[4]  dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Mae'r data cyfredol sydd wedi'i gyhoeddi yn cynnwys data 2015. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth wedi'i diweddaru ym mis Ionawr ar gyfer 2016 a honno'n cynnwys data ar lefel disgyblion yn ôl nodweddion y disgyblion.

Mae perfformiad cyffredinol dysgwyr wedi gwella. Mae canlyniadau TGAU yr haf wedi cael eu gwirio'n amodol ac maent yn dangos i Gymru barhau i berfformio'n dda gyda chyfradd basio gyffredinol o 66.6 y cant (A* - C). Mae hyn yn gyson a'r ddwy flynedd ddiwethaf a dyma'r lefel uchaf a welwyd yng Nghymru. Cafodd dau draean o bob ymgais radd C o leiaf. O ran trothwy cynhwysiant Lefel 2, cyrhaeddodd 35.5 y cant o'r disgyblion a oedd â hawl i brydau ysgol am ddim y trothwy. Mae'r bwlch yng nghyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rheini sydd heb yr hawl honno yn 31.2 pwynt canran ac wedi cau unwaith eto, ond yn amlwg nid yw hyn yn ddigon da.

Y broses o ddyrannu arian a mesur gwerth am arian

4. Eglurhad o sut y caiff y Grant ei ddyrannu, gan gynnwys rôl y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion unigol o ran dirprwyo a thargedu cyllid i wella deilliannau addysgol ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig.

4 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:
http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/education-improvement-grant-equality-impact-assessments/?skip=1&lang=cy

I’r consortia rhanbarthol y caiff y Grant Gwella Addysg ei roi. Mae gofyn i awdurdodau lleol roi elfen o gyllid cyfatebol i gyd-fynd â’r grant, sef tua £11 miliwn fel arfer. Yn unol â’r trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt drwy’r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, bydd awdurdodau lleol a’r consortia wedyn yn cytuno ar sut y caiff cyllid y grant ei ddosrannu ac ar y blaenoriaethau ar gyfer gwariant ar lefel ranbarthol a lleol. Gwneir hyn drwy'r cyd-bwyllgorau a'r byrddau ymgynghorol rhanbarthol. Mae gan y consortia gynlluniau busnes rhanbarthol y cytunwyd arnynt drwy eu trefniadau llywodraethu, ac mae’r rhain yn ystyried cyfanswm y cyllid sydd ar gael iddynt ac i’r ysgolion er mwyn helpu i wella'r ysgolion hynny.

Rhaid dirprwyo lleiafswm o 80% o’r Grant Gwella Addysg i ysgolion. Yr uchafswm y ceir ei wario ar ei weinyddu a’i reoli yw 1%. Gellir defnyddio’r hyn sy’n weddill mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy ddirprwyo rhagor i’r ysgolion, drwy roi cyllid wedi'i dargedu i ysgolion, neu i dalu am ddarpariaeth ranbarthol a lleol sy’n fuddiol i’r ysgolion. Gall hyn gynnwys cynorthwyo’r Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ac Addysg i Deithwyr. Mewn rhai ardaloedd, caiff yr arian hwn ei ddirprwyo’n uniongyrchol i’r ysgolion.

Wrth benderfynu ar ddosraniadau’r Grant Gwella Addysg i’r consortia, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio methodoleg gyllido sy’n adlewyrchu swm yr hen grantiau a ddyrannwyd i’r awdurdodau lleol a’r consortia, ond gan edrych hefyd ar y data diweddaraf sydd wedi’i wirio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Roedd hwn yn benderfyniad bwriadol er mwyn pontio’n ddidrafferth wrth gyflwyno’r Grant Gwella Addysg ac er mwyn rhoi sefydlogrwydd i awdurdodau lleol, y consortia ac ysgolion. Ystyriwyd diwygio’r dull hwn a sefydlu un fethodoleg gyllido, ond er mwyn rhoi sefydlogrwydd, mae’r dull presennol yn dal i gael ei ddefnyddio.

Wrth benderfynu sut i ddosrannu’r grant, bydd y consortia yn ystyried eu blaenoriaethau yn y rhanbarth ac yn yr awdurdodau lleol unigol. Gan fod anghenion yn amrywio o ranbarth i ranbarth ac o fewn y rhanbarthau hynny, mae'r hyblygrwydd sy'n dod law yn llaw â'r Grant Gwella Addysg yn bwysig wrth gynorthwyo ysgolion, y consortia ac awdurdodau lleol i gyflawni’r hyn y bwriedir i’r grant ei gyflawni, a hynny’n unol â’u blaenoriaethau lleol a rhanbarthol.

Er enghraifft, yn ardal Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru, mae Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent wedi bod yn gweithio ar ran yr holl awdurdodau lleol yn hen ardal Gwent ers nifer o flynyddoedd. Mae’n rhannu platfform â’r consortiwm ac wrth symud i’r Grant Gwella Addysg, penderfynodd y pum Cyfarwyddwr Addysg a Rheolwr-Gyfarwyddwr y consortiwm ar y cyd i ddiogelu a pharhau i roi cymorth i’r Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ac Addysg i Deithwyr.

Fel yn achos y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig o’r blaen, mae modd i awdurdodau lleol ddirprwyo cyllid y Grant Gwella Addysg i gyllidebau ysgolion er mwyn galluogi ysgolion i flaenoriaethu pa fath o gymorth y mae ei angen ar eu dysgwyr. Ar wahân i awdurdodau'r de-ddwyrain sy’n gweithio'n rhanbarthol, ar draws Cymru caiff cyllid y Grant Gwella Addysg ar y cyfan ei drosglwyddo i awdurdodau lleol i reoli eu Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ac Addysg i Deithwyr. Mae hyn yn adlewyrchu’r trefniadau blaenorol ar gyfer y ddau grant penodol lle’r arferai Llywodraeth Cymru roi cyllid yn uniongyrchol i’r awdurdodau lleol unigol.

Mae cyfanswm y buddsoddiad sydd ar gael i gynorthwyo dysgwyr lle mae risg iddynt dangyflawni, gan gynnwys dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn sylweddol pan ystyrir yr holl ffynonellau cyllid sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys y cymorth ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd ychwanegol, y

buddsoddiad drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion, cyllid y Grant Gwella Addysg ac yn bwysicach na dim, cyllid craidd yr ysgolion.

5. Swm y Grant a ddyrannwyd i bob consortiwm rhanbarthol ac awdurdod lleol yn 2015-16, ac a wariwyd ganddynt wedi hynny, yn ogystal â'r dyraniadau ar gyfer 2016-17. Dylech ddarparu dadansoddiad o'r wybodaeth hon er mwyn dangos y symiau a ddyrannwyd i ymyriadau penodol er mwyn gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig.

Dyma ddyraniadau'r Grant Gwella Addysg i'r rhanbarthau:

| | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|
| CSC | £43,461,472 | £41,358,670 |
| ERW | £39,978,422 | £38,078,607 |
| GwE | £30,919,693 | £29,398,348 |
| EAS | £26,661,413 | £25,446,375 |
| Cyfanswm | £141,021,000 | £134,282,000 |

Y prif resymau dros gyflwyno'r trefniadau newydd oedd symleiddio systemau a chanolbwyntio mwy ar ddeilliannau yn hytrach na'r mewnbwn a'r allbwn, a lleihau cost gweinyddu a rheoli'r grant er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario'n bennaf ar gyflawni ac ar sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.

Grant newydd yw'r Grant Gwella Addysg ac mae'n rhaid iddo barhau i gynorthwyo'n hysgolion wrth i'w hanghenion newid. Mae hyn yn bwysig wrth inni symud tuag at drefniadau cwricwlwm ac asesu unigryw i Gymru. Ar y cyd â llywodraeth leol, penderfynodd Llywodraeth Cymru gael gwared ar y gofyniad i gadw golwg ar wariant grant fesul themâu'r 11 grant blaenorol. Tybiwyd bod hwn yn gyfle da i leihau costau ysgolion, awdurdod lleol a'r consortia, ac mae'n adlewyrchu'r pwyslais ar ddeilliannau, yn hytrach nag edrych ar weithgarwch ar lefel genedlaethol.

Felly, ar lefel genedlaethol, nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data sy'n dangos faint o'r Grant Gwella Addysg a gaiff ei wario ar feysydd neu themâu penodol, gan gynnwys rhaglenni a dulliau ymyrryd penodol. Efallai y bydd modd cael y wybodaeth hon gan y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol.

6. Gwybodaeth am drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro gwariant y Grant mewn perthynas â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig.

Fel y nodwyd, nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro faint o'r Grant Gwella Addysg sy'n cael ei wario ar wasanaethau sy'n cynorthwyo grwpiau o ddysgwyr sydd â risg o dangyflawni. Mae hyblygrwydd trefniadau'r Grant Gwella Addysg yn galluogi awdurdodau lleol, y consortia ac ysgolion i flaenoriaethu eu cyllid yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf. Ar lefel ysgolion, amcangyfrifwn y byddai'n costio tipyn i gael system i gadw golwg ar y gwariant sy'n cynorthwyo cyflawniad addysgol grwpiau unigol o ddysgwyr, yn enwedig ac ystyried y gallai'r grwpiau hyn o ddysgwyr fod yn cael cymorth o ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion. Fel egwyddor, rydym wedi ceisio lleihau costau gweinyddol y grant a chanolbwyntio mwy ar ddeilliannau.

7. Dylech ddarparu manylion am unrhyw arbedion cost gwirioneddol a disgwyliedig sydd wedi codi o'r newid polisi hwn.

Lleihaodd y Grant Gwella Addysg tua 9% wrth drosglwyddo o'r 11 grant blaenorol, a lleihaodd 4.7% ymhellach yn 2016-17. Ar yr un pryd, mae costau rheoli a gweinyddu'r grant

wedi gostwng hefyd. Yn 2014-15, gosodwyd uchafswm o rhwng 3% a 5% ar gyfer gwariant gweinyddol ambell un o’r 11 grant blaenorol. Pennodd Llywodraeth Cymru mai uchafswm y gwariant a fyddai’n cael ei ganiatáu ar gyfer gweinyddu’r Grant Gwella Addysg fyddai 1.5% yn 2015-16. Gostyngodd hyn i 1% yn 2016-17. Mae'r gostyngiadau yng nghostau systemau wedi galluogi’r consortia, llywodraeth leol ac ysgolion i wneud mwy arbedion a chael mwy o werth o'r cyllid grant, a hynny'n gwneud iawn, i raddau o leiaf, am y gostyngiadau yng nghyfanswm y grant yn y blynyddoedd blaenorol.

8. Gwybodaeth am unrhyw fuddion ariannol eraill sydd wedi codi o ganlyniad i'r newid polisi hwn.

Ar bob lefel, yn yr ysgolion, yr awdurdodau lleol, y consortia a Llywodraeth Cymru, rydym yn amcangyfrif y bydd modd arbed rhagor o adnoddau drwy arbed amser. Drwy gwtogi ar y trefniadau gweinyddol, ynghyd â’r gofyniad i ddefnyddio’r cynlluniau datblygu ysgol sydd bellach yn statudol, yn hytrach na’r cynlluniau grant unigol, amcangyfrifir bod llawer o amser yn cael ei arbed, yn enwedig ar lefel yr ysgolion.

Mae angen cydbwysedd wrth sicrhau atebolrwydd drwy’r system. Wrth brif ffrydio anghenion y grwpiau hyn o ddysgwyr a’u galluogi i gael cymorth yn rhwyddach, mae'n bwysig ystyried y rhesymau dros wneud hynny yng nghyd-destun y gwasanaethau gwella ysgolion ehangach.

Yn Ysgol Uwchradd Llyswrei yng Nghasnewydd, er enghraifft, rydym wedi gweld yr ysgol yn meithrin dull aml-haen o ddefnyddio cyllid grant ar gyfer gwella’r ysgol, a hynny er mwyn ymyrryd yn effeithiol i gynorthwyo pob dysgwr.

O ran y cymorth y mae’r consortia yn ei roi i ysgolion, dylai defnyddio’r cynllun datblygu ysgol yn unig wrth gynllunio helpu ymgynghorwyr her i weld anghenion yr holl ysgol yn eu cyd-destun, gan allu herio a chefnogi ysgolion yn well o’r gwaith cynllunio i’r broses o gyflawni.

Gwerthuso

9. Unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod cyfuno'r grant wedi arwain at ddeilliannau addysgol gwell ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig.

Fel y nodais eisoes, mae’n rhy gynnar i asesu effaith y trefniadau grant newydd ar ddeilliannau addysgol dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan mai dim ond ers mis Ebrill 2015 y mae’r grant wedi bod ar gael.

10. Manylion am y telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth ddefnydd y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol o'r Grant, yn enwedig mewn perthynas â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig.

O dan delerau ac amodau’r Grant Gwella Addysg, rhaid i'r consortia wella deilliannau addysgol pob dysgwr ym mhob lleoliad, gan gynnwys y rheini mewn grwpiau sy’n agored i niwed ac sy’n fwy tebygol o dangyflawni.
Mae’r Grant Gwella Addysg yn help i roi amcanion strategol Cymwys am Oes ar waith, sef gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru.

Mae telerau ac amodau’r grant yn nodi bod yn rhaid defnyddio’r arian i gyfrannu at gyflawni’r gofynion cyffredinol hyn:
Gwella addysgu a dysgu;

Gwella deilliannau addysgol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, a hynny ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, grwpiau dysgu lle mae'n hysbys bod risg iddynt dangyflawni. Rhai enghreifftiau o hyn fyddai dysgwyr o ryw benodol, y rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu â Saesneg a/neu Gymraeg fel iaith ychwanegol, neu ddysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol fel Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a
Gwella deilliannau disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim a chau'r bwlch rhwng y rheini sydd â hawl ac heb hawl i hynny.

Mae Cymwys am Oes wrthi'n cael ei adnewyddu a bydd telerau ac amodau y Grant Gwella Addysg yn y dyfodol yn adlewyrchu hyn.

Yn ogystal â thelerau ac amodau cyffredinol grantiau sy'n cael eu rhoi gan Weinidogion Cymru, mae gofynion hefyd ynghylch lefel y swm sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion, lefel y gwariant a ganiateir ar weinyddu a rheoli'r grant, y defnydd o Gynlluniau Datblygu Ysgol, a'r gofyniad i weithio tuag at gymarebau'r Cyfnod Sylfaen.

11. Manylion am y canlyniad a'r dull o fesur y deilliannau plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

Fel y nodwyd yn yr adrannau uchod, diben y cyllid hwn yw helpu'r consortia a'r awdurdodau sy'n gyfrifol ym mhob consortiwm i wella deilliannau addysgol pob dysgwr. Mae'r Grant Gwella Addysg yn gymorth i gyflawni'n blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer ysgolion, gan gynnwys gwell deilliannau mewn llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol. I gyd-fynd â'r deilliannau hyn, ceir amryw o ddangosyddion perfformiad allweddol, ac mae'r consortia yn amlinellu sut y maent yn bwriadu gwella ysgolion yn eu cynlluniau busnes rhanbarthol. At hynny, mae Fframwaith Perfformiad Addysg yn cael ei dreialu eleni. Mae'r Fframwaith yn gofyn i'r consortia, yng nghyd-destun yr amcanion cyffredinol y cyfeiriwyd atynt ym mhwynt 10, nodi'r prif ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn cyd-fynd â'r deilliannau hyn, ac i bennu amserlenni a cherrig milltir pwysig i'w cyflawni. Mae cysylltiad rhwng y rhain â chynlluniau busnes llawn y consortia. Yn y dyfodol, dylent geisio nodi'n well sut y mae'r Grant Gwella Addysg yn cyfrannu at bethau sydd y tu hwnt i waith gwella ysgolion craidd y consortia a'r ysgolion.

Rwy'n awyddus i weld cysylltiad uniongyrchol rhwng amcanion Cymwys am Oes, a'i ddogfennau cysylltiedig, a chynlluniau busnes y consortia a Chynlluniau Datblygu Ysgol. Drwy wneud hyn bydd modd dangos bod yr arian grant yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol yn unol â'r blaenoriaethau rydym yn eu rhannu. Dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud yn sgil y grant fod yn gynaliadwy ac yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

12. Manylion am y trefniadau monitro ar gyfer cadw at delerau ac amodau'r Grant, yn enwedig y deilliannau a'r dull o fesur y canlyniad, a'r sancsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru os na chânt eu bodloni.

Mae'r grant yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Bydd ymgynghorwyr her y consortia yn monitro'n rheolaidd y gweithgarwch a'r camau ymyrryd y mae'r grant yn eu hariannu, ynghyd â'r dulliau o fesur y deilliannau. Cynhelir adolygiadau a chyfarfodydd her bob tymor, sydd hefyd yn cael eu defnyddio i fonitro perfformiad a deilliannau.

Bydd y consortia yn cyhoeddi adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn sy'n cynnwys manylion am y cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod y grant, ynghyd â gwerthusiad cyffredinol o'r rhaglen ac astudiaethau achos lle mae hynny'n briodol.

Mae gan Lywodraeth Cymru, y consortia ac awdurdodau lleol nifer o grwpiau rhanddeiliaid a dulliau eraill o gynnal eu perthynas, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd drwy CCAC a chyswllt ag arweinwyr pwnc y consortia. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwasanaeth ysgrifenyddiaeth i Grŵp Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdodau Lleol a’r Fforwm Sipsiwn-Teithwyr.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar lefel leol a rhanbarthol i graffu, monitro a rhoi sicrwydd, a hynny drwy'r trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol. Mae’r consortia hefyd yn llunio adroddiadau hunanwerthuso ac yn diweddaru eu cynlluniau busnes fel rhan o'u strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd rhanbarthol.

Mae gan Estyn gyfraniad i’w wneud drwy arolygu ysgolion a gwaith awdurdodau lleol, a hefyd gan fod y consortia’n rhan o’u cylch gwaith. Ynghyd â’r data cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu am berfformiad, ceir gwybodaeth helaeth sy’n cyfrannu at ddeall effaith arian grant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grant Gwella Addysg.

O dan y telerau a’r amodau, gall swyddogion Llywodraeth Cymru ofyn am unrhyw wybodaeth resymol yn ôl y galw os bydd angen gwybod unrhyw beth penodol nad oes modd ei ganfod drwy’r perthnasau a'r dulliau a nodwyd uchod.

Er bod y grant yn rhoi hyblygrwydd sylweddol, mae angen gwneud gwaith archwilio ar lefel yr awdurdod lleol er mwyn canfod unrhyw wariant annerbyniol, a gall Llywodraeth Cymru wedyn hawlio hwnnw’n ôl. Wrth gwrs, gall Llywodraeth Cymru benderfynu cael gwared ar y grant os nad yw’r cyllid yn cyflawni’r nod, ac mae’n bwysig nodi y dylai’r cyllid grant fod yn rhywbeth ychwanegol. Dyletswydd awdurdodau lleol yw rhoi addysg addas i’w holl ddysgwyr, a thrwy’r Setliad Llywodraeth Leol y caiff hyn ei ariannu'n bennaf.

13. Mae dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru, "Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig mewn addysg yng Nghymru" yn dweud y bydd yn “galw gwasanaethau i gyfrif o ran sicrhau canlyniadau gwell i ddysgwyr”. Dylech ddarparu gwybodaeth am ba wasanaethau a gaiff eu dwyn i gyfrif a sut.

O dan delerau’r grantiau blaenorol, cyflwynodd y Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ac Addysg i Deithwyr adroddiadau i Lywodraeth Cymru am y cymorth a oedd yn cael ei roi drwy’r grantiau. O dan y strwythurau i wella ysgolion drwy’r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol a’r Grant Gwella Ysgolion, mae angen bod yn atebol ac adrodd i‘r awdurdodau lleol a'r consortia. Mae Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru wedyn yn sicrhau bod yr awdurdodau lleol a’r consortia yn atebol, a hynny drwy ddulliau sydd wedi’u sefydlu ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein prosesau Herio ac Adolygu, y data a gasglwn ac a gyhoeddwn am berfformiad, a’n perthynas â CCAC sy’n cynrychioli'r Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ac Addysg i Deithwyr.

14. Gwybodaeth am ymyriadau penodol lle defnyddiwyd y Grant i wella deilliannau addysgol ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig ar gyfer 2015-16. Dylech hefyd ddarparu gwybodaeth am sut y mae effaith ymyriadau o'r fath yn cael ei fonitro.

Mae’r dull rhanbarthol o drefnu’r gwasanaeth sydd gan awdurdodau lleol y de-ddwyrain drwy Wasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent yn enghraifft gadarnhaol o gydweithio er mwyn sicrhau bod anghenion y grwpiau hyn o ddysgwyr yn cael sylw. Mae’r consortia yn ceisio canfod a rhannu’r arferion gorau drwy eu rhwydweithiau ysgolion, a chaiff gwybodaeth ei rhoi’n gynyddol ar-lein.

Yn 2015, cyhoeddodd Estyn astudiaeth achos o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud yn ysgol gynradd Llyswrei[5] i wella cyflawniad addysgol grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae ysgol uwchradd Llyswrei hefyd wedi llwyddo â'i darpariaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac wrth ymwneud â'r gymuned, ac yn benodol y gymuned Roma. Deallaf fod dysgwyr Roma yn yr ysgol wedi cael llwyddiant ar Lefel 2 am y tro cyntaf eleni, ac mae'r cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n arw.

Mae gan Wasanaeth Addysg Sipsiwn-Teithwyr Sir Benfro, sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton Priory, 30% o ddysgwyr o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae dros 50% o'r dysgwyr sydd o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro wedi'u cofrestru yn yr ysgol.

Dywedodd arolygiad Estyn o'r ysgol ym mis Ebrill 2016:
The school is a beacon for lifelong learning in the community. For example, the partnership work that has enabled parents, staff and other members of the community to develop new skills and qualifications at the school is a significant strength. Through this work, the school has been innovative in establishing outstanding links with the Gypsy and Traveller community. The wide range of courses, including basic skills courses for parents, GCSE and a degree course offered at the school has brought the community into the school. This has ensured a vibrant learning environment that provides high aspirations for all and has provided parents and carers with the skills to help their children. (Saesneg yn unig)
Mae tri o bobl a arferai fod yn ddysgwyr o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr bellach yn gweithio fel Cynorthwywyr Cymorth Dysgu yn Sir Benfro ac wedi cael graddau BA mewn Cynhwysiant Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda'r ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, gan ddatblygu pecyn dwyieithog sy'n rhoi gwybodaeth a gweithgareddau i helpu dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ymgynefino yn yr ysgol. Datblygwyd y pecyn hwn ar ôl ymgynghori ag aelodau'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac mae ar gael ar rwydwaith Hwb. Y nod yw cael gwared ar rwystrau, hybu dealltwriaeth, a chreu profiad yn yr ysgol sy'n groesawgar a chynhwysol. Mae'r pecyn yn cyd-fynd â Teithio gyda'n gilydd – cyfres o adnoddau a gyhoeddwyd ar wefan Dysgu Cymru yn 2014 er mwyn hyrwyddo'r gwaith o integreiddio diwylliant Sipsiwn a Theithwyr yn y cwricwlwm cenedlaethol.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth a roddwyd yn ddefnyddiol i ymchwiliad y Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn â'r Pwyllgor ym mis Ionawr.

**Yn gywir**

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

[5] Astudiaeth achos Estyn – Ysgol Gynradd Llyswrei: https://www.estyn.llyw.cymru/best-practice/cefnogi-dysgwyr-dan-anfantais-yn-llwyddiannus-yn-helpu-i-hybu-cyflawniad?_ga=1.194976109.1192853083.1475046894 t